

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Rhiwbina Dental @ The Pines

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN digidol: 978-1-80364-764-7

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Rhiwbina Dental at The Pines ar 13 Mehefin 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom fod Rhiwbina Dental at The Pines wedi'i ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i ddarpariaeth y gwasanaeth yn seiliedig ar ganllawiau'r llywodraeth. Golygodd y newidiadau hyn fod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl, ac roedd gweithdrefnau ar waith i leihau lledaeniad COVID-19.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardaloedd aros, ac roedd gwasanaethau yn cael eu cyflawni mewn modd amserol. Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgarg a phroffesiynol
- Roedd y practis yn hygyrch i unrhyw un â phroblemau symudedd
- Gwelsom bolisi cwynion a oedd yn bodloni gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) a bod cwynion yn cael eu cofnodi a'u trin yn briodol mewn modd prydlon ac amserol.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis wedi'i gynnal a'i gadw a'i gyfarparu'n dda i gyflawni'r gwasanaethau a'r triniaethau y maent wedi'i gofrestru i'w cyflawni. Roedd pob ardal yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon gweladwy.

Canfuom fod y trefniadau diogelwch tân yn briodol er mwyn amddiffyn y staff a'r ymwelwyr, a bod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda iawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i gofnodion nodi a gynigiwyd cyngor i gleifion ar roi'r gorau i ysmegu.
- Mae angen cofnodi dewis iaith y cleifion / yr iaith sydd orau ganddynt ar eu nodiadau

- Mae angen cwblhau adroddiad rheoliad 23, sy'n cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn, a'i gyflwyno i AGIC.]

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom archwiliadau o ansawdd da yn cael eu cwblhau, a oedd yn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i ganlyniadau'r archwiliad
- Roedd y gwaith papur a adolygwyd gennym drwy gydol yr arolygiad mewn trefn dda ac yn hawdd ei ddilyn
- Roedd nifer y swyddogion cymorth cyntaf a oedd wedi cael hyfforddiant cyfredol yn sicrhau bod y staff hyn bob amser yn gallu ymateb i ddigwyddiad, anaf neu salwch ar unwaith yn ystod oriau agor y practis
- Roedd gan y practis drefniadau diogelwch tân priodol ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn cynnal adeilad diogel ar gyfer y staff a'r ymwelwyr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

[Gwelsom y staff yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd o dan arweiniad a rheolaeth tîm rheoli proffesiynol ac effeithlon. Roedd yn ymddangos bod pob aelod o staff yn ymroddedig i ddarparu safonau uchel o ofal i'w cleifion.

Canfuom fod y practis wedi'i drefnu'n dda a bod polisiâu a gweithdrefnau ar waith a oedd yn bodloni'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer practisau deintyddol preifat yng Nghymru. Roedd dogfennau'n ymwneud â gwybodaeth am y staff yn cael eu cadw'n ddiogel, ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn ffit i weithio yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau rhaglen o hyfforddiant gorfodol, a bod tystysgrifau'n cael eu cadw i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd y staff. Roedd y staff hefyd yn cael cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol a oedd yn benodol i'w rôl.

Canfuom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, eu bod yn cael eu cofnodi a'u bod ar gael i'r staff eu gweld.]

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- [Mae angen dogfennu geirdaon y gweithwyr a'u cadw ar ffeil.]

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- [Mae rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol gan y tîm rheoli a'r prif ddeintydd yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol i sicrhau gofal o ansawdd uchel i'r cleifion
- Gweithiodd y staff yn dda fel tîm, gan ei gwneud yn bosibl i'r practis redeg yn effeithlon
- Roedd polisïau a dogfennau'r practis yn gyfredol ac yn foddhaol.]

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

"Yn gymwynasgar iawn."

"Bob amser yn ofalgar iawn."

"Hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir."

"Rwyf wedi bod yn glaf ers blynyddoedd lawer ac yn ddiolchgar iawn am y gofal a'r driniaeth rydw i wedi'i gael"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

"Mae'n ddrud iawn. Rwyf o'r farn y gallai'r ffioedd ar gyfer yr archwiliadau arferol a'r hylenydd gael eu lleihau."

"Yn anffodus, mae galw mawr am yr arbenigwyr dwi'n eu gweld, felly weithiau mae'n anodd eu gweld yn brydlon."

"Yr ardal aros dan do y tu allan!"

"Mae apwyntiadau yn y dyfodol yn anodd eu harchebu."

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

[Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn amddiffyn rhag y risg a berir gan y feirws, gwelsom fod peiriannau dosbarthu gel alcohol yn cael eu gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r practis, a gwelsom aelodau o dîm y dderbynfa yn annog y cleifion a'r ymwelwyr i'w ddefnyddio wrth ddod i mewn i'r practis.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunol, roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Gwelsom fod y ffenestri ar agor a bod systemau puro'r aer yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth ac yn ardaloedd aros y cleifion, er mwyn lleihau trosglwyddiadau ymhellach.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn dal i gofnodi ymatebion y cleifion i'w cwestiynau sgrinio COVID-19, a gwelsom y staff yn tywys y cleifion i'r ystafelloedd aros a'r ystafelloedd triniaeth priodol tra'u bod yn y practis.

Yn ystod eu cyfnod yn y practis, teimlai'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron ei bod yn amlwg iawn bod y gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis yn cydymffurfio â mesurau COVID-19.

Gwelsom arwyddion yn y practis gyda'r geiriau 'Dim Ysmygu' arnynt, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar fangreoedd di-fwg.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn dweud bod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.]

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

[Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod o'r farn bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd angen cymorth arnynt.

Gwelsom y staff yn darparu gofal i'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus, a siaradwyd â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a chymwynasgar. Cadwyd drysau i ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod triniaethau. Roedd gan y practis ystafelloedd cyfarfod neilltuedig ar gyfer cynnal sgysiau preifat â'r cleifion, ac roedd yn bosibl eu cynnal yn yr ystafelloedd triniaeth hefyd.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis rhai aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg, ond ni welwyd unrhyw wybodaeth yn hysbysebu hyn i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth i'r cleifion yn eu dewis iaith a / neu eu fformat dewisol, a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael iddynt.]

Gwybodaeth i gleifion

[Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardaloedd aros. Roedd gwybodaeth yn cael ei chadw mewn ffolderi, ac roedd yn cynnwys y daflen wybodaeth i gleifion, y datganiad o ddiben, polisiau a gweithdrefnau ynghyd â gwybodaeth benodol am driniaeth. Roedd rhestrau prisiau'n cael eu harddangos, ac roedd teledu'n dangos gwybodaeth am y practis.

Gwelsom fod naw o egwyddorion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros, yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd enw'r practis yn weladwy o'r tu allan. Roedd oriau agor a rhif ffôn hefyd wedi'u harddangos ar y ffenestri.]

Gofal amserol

Mynediad amserol

[Canfuom fod y practis yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn gwneud apwyntiadau yn bennaf drwy anfon nodiadau atgoffa am apwyntiadau. Fodd bynnag, gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn neu ddefnyddio gwefan y practis i anfon negeseuon e-bost ato.

O blith y 40 o bobl a ymatebodd i'r holiadur, teimlai 27 ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a dywedodd 12 ei bod yn 'eithaf hawdd'.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio system negeseuon i hysbysu tîm y dderbynfa am unrhyw oedi, sydd yna'n rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi.

Dywedwyd wrthym fod dau ddeintydd ar alwad bob dydd i ddelio ag argyfyngau y tu allan i oriau agor y practis. Yn ogystal, mae'r practis yn gallu cynnig apwyntiad brys i'r cleifion yn ystod eu horiau gwaith.

O blith y cleifion a gwblhaodd holiadur, dangosodd 23 eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau pe bai ei angen arnynt ar gyfer problem ddeintyddol frys.]]

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

[Gwnaethom adolygu cofnodion deg o gleifion a chanfod bod wyth ohonynt yn cynnwys tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd 36 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.]

Hawliau pobl

[Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisiau ar waith sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal, cydraddoldeb ac amrywiaeth i sicrhau bod hawliau dynol y cleifion a'r staff yn cael eu cynnal.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir.

Gwelsom fod gan y practis bedair ystafell driniaeth ar lawr daear y practis yn ogystal â thoiled i bobl ag anabledd. Roedd arwyddion ar gyfer y thoiled ac roedd canllawiau i'w cydio i gynorthwyo'r cleifion sydd ag anawsterau hygrychedd.

Roedd mynediad i'r practis yn anghyfyngedig, a'i gwnaeth yn bosibl i unrhyw un ag anawsterau symudedd gael mynediad i'r practis a'r ardaloedd triniaeth ar y llawr daear.]]

Gwrando a dysgu o adborth

[Gwnaethom nodi bod y practis yn arddangos copi o'i weithdrefn gwyno yn yr ystafell aros, a oedd yn cynnwys y wybodaeth briodol o ran amserlenni ac uwchgyfeirio cwynion.

Rhoddyd cofnodion o gwynion i ni a oedd yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn cael eu cadw mewn ffolder bwrpasol. Gwelsom dystiolaeth o gamau gweithredu manwl a gymerwyd ac ymatebion a weithredwyd i ddatrys pryderon y cleifion.

Cawsom wybod bod adborth i'r practis yn cael ei groesawu drwy ddulliau megis ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, ac adborth a roddwyd i staff y practis wyneb yn wyneb. Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw adborth gan y cleifion yn cael ei adolygu, ac y byddai unrhyw themâu a nodwyd yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm.]

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

[Canfuom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff a'r ymwelwyr â'r practis.

Roedd yr adeiladau i'w gweld yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn y tu mewn a'r tu allan. Roedd mynediad i'r prif adeilad yn ddi-rwystr, gan ei gwneud yn bosibl i unrhyw un â chymhorthydd symudedd / cadair wthio fynd i mewn i'r adeilad.

Roedd yn bosibl gweld bod pob ardal yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon amlwg. Gwelsom yn rhoiled yr ymwelwyr fod darn o selydd y llawr ar goll. Rhoddwyd sylw i hyn ar y diwrnod ac felly mae'n sicrhau bod safonau rheoli heintiau'n cael eu cynnal. Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddihalogi mewn cyflwr da. Roedd gan bob ystafell y cyfarpar angenrheidiol i gyflawni'r triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon ynghylch glendid y practis deintyddol, a nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis deintyddol yn lân iawn yn eu barn nhw.

Ni nodwyd unrhyw broblemau ynglŷn â'r gwres, y goleuadau neu'r awyru.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau gwahanol o gwmpas y practis, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu. Roedd asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2021 a gwelsom fod y camau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau. Roedd llyfr cofnod tân ar waith a oedd yn cofnodi pan gynhaliwyd profion ar gyfarpar tân, gan gynnwys larymau. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod

hyfforddiant marsial tân wedi'i gwblhau ar gyfer staff enwebedig, a bod hyfforddiant diogelwch tân cyffredinol wedi'i drefnu ar gyfer yr holl staff eraill ym mis Gorffennaf 2022.

Gwelsom fod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân. Roedd arwyddion dim ysmegu a phoster iechyd a diogelwch wedi'u harddangos, gan gynnwys tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith yn ogystal ag asesiad risg amgylcheddol i sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas i'r diben. Gwelsom fod gan y practis asesiad risg COVID-19 ar waith a bod yr holl staff wedi cynnal asesiadau risg COVID-19 unigol.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes ar waith.]

Atal a rheoli heintiau

[Gwelsom fod polisi rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd contract hefyd ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a chael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel.

Canfuom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac ar wahân i wastraff nad yw'n beryglus.

Gwnaethom nodi bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

Gwelsom fod yr ystafell dihalogi ddynodedig yn addas i'r diben o ran ei chynllun a'i glanweithdra. Gwelsom fod ystafelloedd ar wahân ar gyfer pethau budr a phethau glân. Gwnaethom gynghori ar ddiwrnod yr arolygiad y dylid cludo eitemau glân i'r ystafelloedd triniaeth mewn blychau glân, wedi'u selio, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rhoddwyd sylw i hyn a'i roi ar waith ar unwaith.

Gwelsom fod y llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio yn cael eu cwblhau a bod gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer gweithio yn y maes hwn.

Roedd archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael ei gwblhau'n flynyddol, ac roedd unrhyw feysydd i'w gwella yn cael eu cwblhau.

Roedd gan y practis nyrsys arweiniol neilltuedig ar gyfer dihalogi, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi dilyn hyfforddiant rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ymdrin ag unrhyw anafiadau a achoswyd gan offer miniog.]

Rheoli meddyginiaethau

[Canfuom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys. Roedd polisi argyfyngau meddygol ar waith a oedd yn cynnwys rhoi, trin a chael gwared ar feddyginiaethau i'r cleifion. Roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio mewn lleoliad hygrych i'r staff. Gwnaethom hysbysu'r staff y dylai fod gan y practis arwydd i ddangos lleoliad y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a'r diffibriliwr. Gweithredwyd ar hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd systemau ar waith i nodi tystiolaeth bod gwiriadau ar y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gwnaethom nodi bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys i gyd o fewn eu dyddiad.

Roedd gan y practis 15 o swyddogion cymorth cyntaf ac roedd hyfforddiant pob un ohonynt yn gyfredol. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael, ac roedd popeth ynddo o fewn ei ddyddiad ac yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau cywir y byddent yn eu dilyn pe bai argyfwng neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddiwyddiad amhriodol sy'n ymwneud â chyffuriau.]

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

[Gwelsom fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu oedolion a phlant ar lefel 2. Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu a dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd iddi.

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith. Roedd y ddogfen yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol, a siart lif er mwyn cyfeirio'n gyflym at y camau gweithredu y gallai fod angen i'r staff eu cymryd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio gwefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru i sicrhau bod ei holl wybodaeth ddiogelu yn gyfredol.

Gwelsom fod ffeiliau'r holl staff yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gafodd ei gynnal cyn eu cyflogaeth, a'i fod yn cael ei adnewyddu bob tair blynedd.]

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

[Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer. Roedd tystiolaeth o hyn ar ffurf rhestrau gwirio sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd, tystysgrifau hyfforddi a'r ffaith bod y staff yn mentora pobl eraill.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod cyfarpar radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Gwelsom fod hyn yn cydymffurfio, bod y dogfennau perthnasol ar waith a bod y wybodaeth yn gyfredol.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a oedd wedi'i gwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod archwiliad radiograffeg wedi'i gwblhau a oedd yn dangos cydymffurfedd bellach â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a gofynion monitro sicrwydd ansawdd.]]

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

[Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis ar gyfer y cleifion a'u trin.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn ceisio arweiniad proffesiynol a'u bod yn ei ddefnyddio i ddiweddarau eu polisiâu eu hunain pan oedd yn berthnasol. Roedd tystiolaeth o hyn yng ngweithdrefn weithredu safonol y practis, a oedd wedi cael ei diweddarau yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf a chyngor gan gyrff allanol, gan gynnwys yr arweiniad a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru.]

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[Roedd gan y practis bolisi archwilio clinigol ac adolygu gan gymheiriaid a pholisi ymchwil glinigol ar waith. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom fod archwiliadau wedi'u cwblhau mewn perthynas â phelydr-X, cadw cofnodion, canser y geg, rhoi'r gorau i ysmegu, rhagnodi gwrthfotigau, triniaeth periodontol a Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cael ardystiad arfer da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain(BDA) yn 2015 ac ardystiad Denplan Excel.

Mae Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis a llunio adroddiad ysgrifenedig ar weithrediad y practis. Felly, rydym yn argymhell bod yr unigolyn cyfrifol yn adolygu gofynion Rheoliad 23 ac yn cynnal ymweliad cyn gynted â phosibl. Dylid cyflwyno'r adroddiad a gynhyrchir i AGIC.]

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

[Canfuom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd staff ar waith a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel ac yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol.

Roedd ffolderi personol y staff a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif a chyfrinachol hefyd yn cael eu storio'n ddiogel yn swyddfa rheolwyr y practis er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.]]

Cadw cofnodion

[Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom adolygu deg set o gofnodion cleifion. Daeth hyn i'r casgliad fod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda iawn. Roedd y nodiadau'n glir ac yn cynnwys digon o wybodaeth.

Gwelsom fod wyth o'r deg cofnod yn cynnwys hanes cymdeithasol y claf, gan gynnwys cymeriant alcohol a'r defnydd o dybaco. Casglwyd y wybodaeth hon i nodi risgiau uwch o ganser y geg. Yn yr holl gofnodion a adolygwyd, roedd hanes meddygol a oedd yn cael ei ddiweddarau ar ddechrau bob cwrs o driniaeth.

Roedd cydsyniad gwybodus wedi'i gofnodi mewn naw cofnod allan o'r deg y gwnaethom eu hadolygu, a nodwyd opsiynau triniaeth. Gwelsom fod hanes deintyddol, y rheswm dros fynychu apwyntiad, gwybodaeth adalw wedi'u nodi hefyd.

Gwelsom nad oedd y dewis iaith wedi'i chofnodi yn y cofnodion a adolygwyd. Ni chofnodwyd y ffaith y rhoddwyd cyngor ar roi'r gorau i ysmegu ar un o'r cofnodion a oedd ar gyfer claf y nodwyd ei fod yn ysmygwr.]

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd (perchennog y practis) sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith o reoli'r practis a fe yw'r unigolyn cyfrifol. Mae'n cael ei gefnogi gan dîm rheoli o bedwar aelod o staff. Ar adeg ein hymweliad, roedd gan y practis 13 o ddeintyddion / arbenigwyr, wyth hylenydd, 19 o nyrsys deintyddol a naw aelod o staff derbynfa. Gwelsom fod gofal deintyddol preifat yn cael ei ddarparu yn unol â'i amodau cofrestru.

Gwelsom y tîm staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac roedd hyn yn amlwg o'u perthynas a'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd a'u cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, yr oedd y ddau ohonynt yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan y practis.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael i'r holl staff.

Mae rheolwyr y practis yn sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno yn achos unrhyw anafiadau difrifol.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cymerir cofnodion a'u cadw mewn ffolder. Dywedwyd wrthym y bydd unrhyw aelod o staff nad yw'n gallu dod i gyfarfod tîm yn cael ei ddiweddarau pan fydd yn dychwelyd fel ei fod yn ymwybodol o'r trafodaethau a gynhaliwyd.]

Gweithlu

[Dywedwyd wrthym am y broses a gynhelir gan y practis i recriwtio staff newydd. Gwelsom amrywiaeth o bolisiâu a oedd yn cefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff newydd. Dywedwyd wrthym nad yw staff asiantaeth byth yn cael eu defnyddio.

Dywedwyd wrthym fod y system rota a ddefnyddir yn ei gwneud yn bosibl i'r practis sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser. Gellir cynllunio rotâu hyd at 10 niwrnod ymlaen llaw. Mae hyn yn caniatáu i unrhyw fylchau yn y staff gael eu hadolygu a'u diwygio fel y bo'n briodol.

Gwnaethom adolygu ffeiliau'r staff a chanfod eu bod yn cynnwys contractau cyflogaeth, disgrifiad swydd, CV a chofnod o imiwnedd rhag Hepatitis B. Dywedwyd wrthym y ceisir geirdaon llafar ar gyfer dechreuwyr newydd a gwnaethom argymhell y dylid eu dogfennu a'u cadw ar ffeil.

Dywedwyd wrthym y cynhelir arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff a gwelsom dystiolaeth o'r rhain yn rhai o ffeiliau'r staff.

Gwelsom fod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ffeiliau pob aelod o staff a'u bod yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Roedd yr holl staff deintyddol cymwys wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent yn cydymffurfio â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu cadw ar ffeil er mwyn sicrhau bod cofrestriadau'n parhau. Yn ogystal, gwelsom fod tystysgrifau yswiriant indemniad hefyd yn cael eu cadw ar ffeil ar gyfer yr holl staff perthnasol.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith. Dywedwyd wrthym y gallai staff fynd at y staff rheoli a / neu'r prif ddeintydd yn gyfrinachol pe byddai ganddynt unrhyw bryderon.

Gwelsom dystiolaeth bod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer y staff a oedd yn cynnwys adfywio cardio-pwlmonaidd, diogelu a hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd cydymffurfedd â gofynion hyfforddiant yn dda. Mae'r practis yn trefnu cyrsiau wyneb yn wyneb i'r holl staff eu mynychu ac felly mae'n gallu rheoli a monitro cydymffurfedd y staff.

Yn ogystal â'r hyfforddiant gorfodol y mae'n rhaid i'r staff ei gwblhau, dywedwyd wrthym am y cyfleoedd a gafodd y staff i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r cyflogeion ddatblygu yn eu rôl a chynllunio eu llwybr gyrfa o ran eu twf personol.

]

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gontract gyda darparwr allanol a oedd yn darparu cymorth adnoddau dynol. Mae hyn yn sicrhau y bydd unrhyw broblemau perfformiad a nodir yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth a chyngor cyflogaeth cyfredol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch y cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Rhiwbina Dental @ The Pines

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynghylch sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Rhiwbina Dental @ The Pines

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i gofnodion y cleifion nodi a gynhigiwyd cyngor ar roi'r gorau i ysmegu.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii)	Mae'r templed nodiadau clinigol (cofnodion cleifion) wedi'i ddiweddararu i gynnwys adran sy'n ymwneud â chyngor ar roi'r gorau i ysmegu. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm gyda'r staff clinigol i sicrhau bod y ddogfennaeth yn gywir.	Nia Evans	Cwblhawyd ar 14 Mehefin 2022
Dylai cofnodion cleifion gofnodi eu dewis iaith / pa iaith sydd orau ganddynt.	Rheoliad 13 (1)(a) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Diweddarwyd y templed ar gyfer nodiadau clinigol (cofnodion cleifion) a holiadur hanes meddygol cleifion fel ei fod yn cynnwys cwestiwn sy'n gofyn i'r cleifion pa iaith sydd orau ganddynt.	Nia Evans	Cwblhawyd ar 14 Mehefin 2022

<p>Mae angen cwblhau adroddiad Rheoliad 23, gan gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'i gyflwyno i AGIC.</p>	<p>Rheoliad 23 (2)(a)(b)(c); (3); (4)(a)(b)(c); (5)(a)(b) (i)(ii); (6) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Cwblhawyd adroddiad Rheoliad 23 gan y darparwr cofrestredig, yn dogfennu ei ymweliad â'r safle a'i ganfyddiadau, ac mae hwn wedi'i gyflwyno i AGIC.</p>	<p>Nicholas Claydon Nia Evans</p>	<p>Cwblhawyd yr adroddiad ar 1 Gorffennaf 2022</p> <p>Cwblhawyd yr adroddiad ar 5 Awst 2022</p>
<p>Mae angen dogfennu geirdaon y gweithwyr a'u cadw yn ffeiliau'r staff.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Atodlen 3 Rhan 1 Rheoliad 3</p>	<p>Mae'n ofynnol bellach i bob gweithiwr ddarparu o leiaf un canolwr yn ystod y cam cyfweld. Yna, mae uwch aelod o staff yn anfon cais ysgrifenedig am eirdd at ganolwyr a enwir. Mae'r broses hon yn cael ei dogfennu a'i storio'n ddiogel ar ffeiliau'r staff.</p>	<p>Nia Evans</p>	<p>Gweithredwyd ar 14 Mehefin 2022</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): NIA EVANS

Swydd: RHEOLWR Y PRACTIS (RHEOLWR COFRESTREDIG)

Dyddiad: 5/8/2022

